| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD:** | **8 TACHWEDD 2011** |
| **TEITL YR ADORDDIAD:** | **CYNLLUN GWEITHREDU ARCHWILIO GRANTIAU** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **DIWEDDARIAD AR ARCHWILIO GRANTIAU ALLANOL 2009/10** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **EINIR WYN THOMAS** |
| **GWEITHREDIAD :** | **ER GWYBODAETH** |

# Cynllun Gweithredu Archwilio Grantiau

Ym mhroses archwilio allanol 2009/10, tynnwyd sylw at nifer o broblemau a oedd yn codi dro ar ôl tro mewn perthynas ag archwiliadau grantiau. Mae angen rhoi sylw i'r problemau hyn. Lluniwyd cyfres o argymhellion i sicrhau gwelliannau ar gyfer y dyfodol.

**1.** **RHAID** sefydlu systemau monitro cadarn lle mae'r Awdurdod yn gweithredu fel y Corff Atebol am gyllid grant a'r cyllid yn cael ei drosglwyddo ymlaen i sefydliadau trydydd parti. Mae mwy o risg i'r Awdurdod pan fo cyllid yn cael ei ddirprwyo i drydydd parti. Rhaid parhau i wario'r arian yn unol â thelerau ac amodau'r grant. Yr Awdurdod sy'n gyfrifol am y grant, nid y sefydliad trydydd parti. Yr Awdurdod sy'n gorfod talu unrhyw grant a grafengir yn ôl oherwydd torri amodau grant. Er mwyn lleihau'r risg i'r Awdurdod, dylid sicrhau:

- Bod Cytundebau Lefel Gwasanaeth wedi eu harwyddo neu Gontractau Cyllido wedi eu sefydlu sy'n adlewyrchu telerau ac amodau contract yr Awdurdod gyda'r Corff sy'n Dyfarnu Grant;
- Bod adroddiadau monitro chwarterol yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod yn tystiolaethu sut y gwariwyd yr arian;
- Bod ymweliadau monitro ac ymweliadau ar hap yn cael eu cynnal o bryd i'w gilydd ar sefydliadau trydydd parti;
- Bod targedau/canlyniadau wedi eu cytuno gyda'r sawl sy'n derbyn y grant.

**2.** **RHAID** dyfarnu pob contract yn unol â Rheolau Gweithdrefn Contractau'r Awdurdod a rhaid cadw a chynnal rhestr gontract lawn ar ffeil archwilio'r prosiect. Dylai copïau o'r dogfennau tendr fod ar gael yn rhwydd yn ystod yr archwiliad. Rhaid i nwyddau, gwaith a gwasanaethau sy'n werth dros £30k fynd trwy drefniadau tendro llawn. Rhaid cael tri dyfynbris cystadleuol ar gyfer nwyddau, gwaith a gwasanaethau sydd werth rhwng £3k a £30k a dylid cynnal trywydd archwilio.

**3.** Rhaid cofnodi'r holl asedau a grëir neu a wellir trwy ddefnyddio cyllid grant ar Gofrestr Asedau. Lle mae'r Awdurdod yn gweithredu fel y Corff Atebol ar gyfer cyllid cyfalaf a drosglwyddir i drydydd parti i greu ased, rhaid i'r Awdurdod barhau i fonitro'r defnydd o'r ased y tu draw i gyfnod y cyllido yn unol â thelerau ac amodau'r grant. Gallai cael gwared ar yr ased olygu bod arian yn cael ei grafangu'n ôl oddi wrth yr Awdurdod.

**4.** Rhaid i staff nad ydynt ond yn gweithio am gyfran o'u hamser ar brosiect gadw taflenni amser sy'n cofnodi oriau a roddwyd i'r prosiect. Dylai'r swyddog a'r rheolydd llinell arwyddo'r daflen amser. Rhaid cysoni'r cyfraddau fesul awr yn ôl gyda'r costau cyflogi gwirioneddol a'u rhannu i'r ganolfan cost y prosiect.

**5.** Rhaid sicrhau mai dim ond gwariant cymwys a gwariant a gafwyd o fewn cyfnod y grant a hawlir.

**6.** Rhaid ceisio cwrdd â dyddiadau cau ar gyfer hawliadau ond, os nad oes modd gwneud hynny, rhaid rhoi gwybod i'r Cydgysylltydd Grantiau yn yr Adran Gyllid i ganiatáu estyniad i'r amserlen.

**7.** Cynhelir cyfarfodydd cydgysylltu rheolaidd rhwng yr archwilwyr allanol, y Pennaeth Cyllid a'r Cydgysylltydd Grantiau i ddwyn sylw at unrhyw faterion archwilio cyn gynted ag y bo modd.

**8.** Er mwyn sicrhau defnydd effeithiol o amser archwilwyr, rhaid cytuno ar ba bryd y cynhelir archwiliadau a chyda pwy i sicrhau bod papurau gweithio yn barod a bod staff ar gael.

**9.** Rhaid rhoi gwybod am ganlyniadau archwiliadau i Reolwyr Prosiectau/Penaethiaid Gwasanaeth fel bod modd datrys unrhyw faterion cymhwyso wrth fynd ymlaen.

**EINIR WYN THOMAS**
**PENAETH GWASANAETH (CYLLID)** **1 TACHWEDD 2011**